Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
a gynhalwyd yn Y Ganolfan, Llithfaen
Nos Fawrth 12fed o Chwefror, 2019 am 7:00y.h.

Cadeirydd: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

Presennol:			Cynghorwyr - Griffith Jones (GJ), Sara Williams (SW), Sianelen Pleming (SP), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), William Jones (WJ), Ynyr Ellis (YE), Emlyn Hughes (EH), a'r Cyng. Aled Jones (AJ). Dylan Wynn Jones (Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd) a Cholin Jones (Sgt 1688). Yn gyd-destun eitem 6 yn unig.
1.			**Hysbysiadau'r Cadeirydd** Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i Dylan Wynn Jones (Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd) a Cholin Jones (Sgt 1688).
2.			**Ymddiheuriadau** Lisbeth James (LJ), Olwen Roberts (OR).
3.			**Datgan Diddordeb** Dim
4.			**Diweddariadau asedau** Dim
5.			**Cofnodion**
	5.1		**Cyflwyno a mabwysiadu** Cynigiodd JO ac eiliodd SP cywirdeb y cofnodion ac fe'u mabwysiadwyd.
	5.2		**Materion yn codi**
		5.2.1	**Wal y ffordd i Nant Gwrtheyrn** Yn dilyn cyfarfod ar y 6ed o Chwefror, 2019 yn y Ganolfan gyda SP, AJ, Swyddog AHNE Llŷn, Prif Reolwr Canolfan Nant Gwrtheyrn a pherchennog y tir, esboniodd SP fod posibilrwydd cael grant gan AHNE hyd at 75% ar yr amcanan bris a dderbyniwyd yn flaenorol o £19,000. gan Dylan. Bydd angen cyfraniad am weddill y gost gan Nant, perchennog y Tir a'r Cyngor Cymuned. Aeth ymlaen i esbonio bydd angen tri tendr ar gyfer y gwaith a bydd y Swyddog AHNE yn trefnu gyda Chyngor Gwynedd i greu'r ffurflen tendro. Credwyd bydd y gwaith yn cymryd rhyw chwe wythnos a phedwar dyn ond ni fydd y gwaith yn cychwyn am oleiaf tri mis. Cynnigiodd SP i'r Cyngor arwain y cais am y grant gan AHNE, cytunwyd pawb. ***SP a'r Clerc i weithredu ar y cais.***

		5.2.2	**Mynwent Pistyll** Cyflwynodd GW amcan bris gan Osian Williams i dorri gwellt Mynwent Pistyll, awgrymodd y Clerc bydd rhaid cael tri cyn gwneud penderfyniad.
		5.2.3	**Cerrig Milltir Blwyf Pistyll** ***Y Clerc i atgoffa'r Cyngor eto erbyn mis Mawrth i fynd ati i ddarganfod y cerrig yn eu hunion sefyllfa.***
		5.2.4	**Goryrru trwy Lithfaen** Gweler pwynt 6
		5.2.5	**Llwyni Peryglus** Ni dderbyniwyd diweddariad pellach gan y Cyngor Sir hyd yn hyn.
		5.2.6	**Dwr a difrod i'r lonydd lleol** Draen yn rhedeg i geg lon heibio Capel Tabor ac yn dod lawr o Fryn Celyn, hefyd difrod i'r lon o Bistyll i Bentre' Uchaf. Y cwyn nawr wedi ei ddatrus gan y Cyngor Sir.
		5.2.7	**Canolfan Llithfaen** Esboniodd SP bydd y mater i ymwneud a pharcio yn cael ei adael am fis ond ni fydd yn cael ei ychwanegu yn y Les.
		5.2.8	**Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn** Derfynwyd SP gopi o gofrestr sydd yn cadarnhau bod y safle wedi ei gofrestru fel rhif 73. ers Gorffennaf 1976 yn enw Cyngor Cymuned Pistyll. Bydd rhaid trafod yn Cyfarfod nesaf am gasgliadau ysbwriel. ***Y Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru i ddarganfod dyletswyddau ac oblygiadau'r Cyngor Cymuned ar y safle.***
		5.2.9	**Plas Pistyll** Esboniodd AJ bod yr ymchwiliad i'r ceisiadau Cynllunio dal i barhau a bod Cyfarfod Craffu Cymunedau wedi ei ohirio tan fis Ebrill. Bydd yn parhau i bwysleisio ar gwestiynau (gyda chefnogaeth Gryff Williams a Seimon Glyn): a) Ydi'r Prif Gyfreithiwr sef Iwan Evans (gan ei fod yn gwneud adroddiad ar y datblygiad) wedi bod ar y safle? b) Ydi'r Cyngor Sir yn cydnabod bod y cynllun gwreiddiol a gafodd ei gytuno yn 2012 yn sylweddol wahanol i beth sydd wedi diweddu yno? Ai' llawer o fan newidiadau wedi eu cytuno heb eu cyflwyno i'r Cyngor Cymuned syn gyfrifol am hyn? Hyd yn hyn maent wedi methu cael ateb cadarn i'r cwestiynau. Gofynnodd EH os oedd posib i'r Cyngor Cymuned wneud cwyn i'r ombwdsman. Awgrymodd AJ oherwydd blerwch anffodus gyda geirio mewn ymateb i gais ar y testun bydd hyn yn anodd iawn. Bydd AJ yn diweddaru'r Cyngor Cymuned ar unrhyw ddatblygiad pellach. Gadawyd AJ y Cyfarfod ar ddiwedd y drafodaeth.

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

6.

Gôr yrru drwy Lithfaen

Cyflwynodd Colin Jones ei hun fel Rhingyll yn gyfrifol am Dde Gwynedd yn gyfan ac yn gyfrifol am 22 Swyddogion Cymorth Cymunedol. Cyflwynodd y data canlynol gan Go Safe:

	Date	Arrive hh:mm	Leave hh:mm	Total hh:mm	Total Recorded Offences (Not NIP's Issued)	Total Visits	Actual Offences
B4417 Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd	Tue 22/05/18	09:29	10:53	01:24	3	1	2
	Fri 08/06/18	10:20	12:00	01:40	7	1	6
	Thu 14/06/18	14:58	16:35	01:37	9	1	3
	Tue 03/07/18	11:25	12:45	01:20	0	1	0
	Thu 05/07/18	09:30	09:35	00:05	0	1	0
	Mon 06/08/18	09:54	11:33	01:39	3	1	3
	Sun 16/09/18	18:14	19:15	01:01	1	1	1
	Tue 02/10/18	11:03	11:36	00:33	0	1	0
	Thu 01/11/18	13:57	15:00	01:03	6	1	6
	Mon 05/11/18	14:14	15:14	01:00	0	1	0
	Thu 06/12/18	09:46	10:45	00:59	0	1	0
	Mon 10/12/18	09:33	10:35	01:02	3	1	2
	Wed 09/01/19	10:11	11:11	01:00	5	1	4
	Tue 15/01/19	12:59	14:00	01:01	0	1	0
Grand Total					**37**	**14**	**27**

Cadarnhaodd nad oedd y graff a dderbynwyd yn flaenorol gan PCSO Liz Jones yn gyflawn.

Cwestiynau a godwyd yn y drafodaeth:

a) Oes posib cynnal yr arwyddion fflachio yn y pentref i hysbysu ei fod yn ardal gorfodaeth? -
Esboniodd DWJ bod cyllid cynnal a chadw goleuadau fflachio Arrive Alive yn anffodus wedi dod i ben ers 2009 ond bydd yn rhoi cais i'r Cyngor Sir osod arwyddion eraill.
Aeth ymlaen i esbonio fod yr heddlu yn cyflogi arbenigwr sef Gareth Osbourn Jones, Swyddog Diogelwch Ffyrdd sydd yn gweithio rhwng y Cyngor a'r Heddlu ac efallai bydd modd cael gwybodaeth bellach ganddo ef.

b) Oes modd gostwng y cyflymder drwy'r pentref?
Esboniodd DWJ yn anfoddus nid oes modd gwneud hyn, mae mesuriadau allith y Cyngor Sir gynnig sef marciau ffordd a thwmpathau cyflymder yn barod yn ei llef a chodi proffil yr orfodaeth yw'r ffordd ymlaen.

c) Yn amlwg tydi Go Safe ddim ar y safle cyn 9.30 yn y bore, a oes modd addasu'r amseroedd a lleoliad?
Cytunodd CJ wneud y cais ar ran y Cyngor i Go Safe. Awgrymodd hefyd i'r Aelodau gael trafodaeth a'r Swyddog Go Safe.

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

			ch) Mae'r Cyngor yn hanesyddol wedi cael trafferthion cyfathrebu a chael gwybodaeth gan Go Safe, a oes dull ychwanegol i'r e-bost ar eu gwefan - *Awgrymodd CJ gwneud cais drwy 'general web enquiry' Heddlu Gogledd Cymru* d) A fydd gorfodi yn parhau yn y pentref? *Esboniodd DWJ bydd y gorfodi yn parhau hyd nes bydd y cosbi yn gostwng*
			Ceisiadau Cynllunio Dim
8.			**Materion Lleol a gyflwynwyd o flaen llaw**
	8.1		**Ysbwriel yn dilyn casgliadau sbwriel ac ail-gylchu'r Cyngor Sir** Cwyn blaenorol gan LJ - Roedd cwynion pellach gan yr aelodau am sbwriel ac ail-gylchu, hefyd bagiau baw ci ym Mhig y Delyn. ***Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir***
	8.2		**Llifogydd ger Tŷ Tecwch** Cwyn blaenorol gan OR - y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir yn barod a'r gwaith wedi ei gwblhau - Awgrymodd GJ bydd angen cysylltu ymhellach gan fod y llifogydd dal i barhau. ***Y Clerc i weithredu***
	8.3		**Ysbwriel a choed wedi torri ar Lon Chwarel, top y Nant** Cwyn gan GJ - Er gwaetha cwynion blaenorol gan yr Aelodau i'r Cyngor Sir mae'r broblem dal i barhau. ***Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir***
9.			**Gohebiaeth**
	9.1		**Adolygiad Cludiant Cyngor Gwynedd** Penderfynwyd yr Aelodau i'w lenwi fel unigolion ar lein
	9.2		**Ymateb Garem Jackson mewn perthynas â thoriadau i gyllideb Canolfannau Iaith Gwynedd** Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw
10.			**Gwybodaeth**
	10.1		**Egni Co-Op / Paneli solar** Wedi ei gylchredeg o flaen llaw – dim sylwadau pellach
	10.2		**Gwahoddiad i gynilleidfa Any Questions' BBC Radio 4, Nant Gwrtheyrn am 8 y.h ar nos Wener y 15fed o Chwefror,2019** Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw – dim sylwadau pellach

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

	10.3		**Bwletin Newyddion Medi 2018 Un Llais Cymru** Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw – dim sylwadau pellach **Cynllun ffioedd 2019-20 Archwilydd Cyffredinol Cymru** Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw – dim sylwadau pellach
11.			**Cyllid**
	11.1		**Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf** **Cyfredol** **Taliadau:** Cyflog y Clerc - £160.00 Treuliau gweinyddu – £20.03 **Balans - £8,015.44** **Cadw:** **Balans - £2,145.58**
	11.2		**Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod** Cyflog Clerc - £160.00 Costau gweinyddol - £18.84 = £178.84 Cyflwynodd SP roddion a dderbynwyd tuag at y diffiblwr gan: Mared Grug Llywelyn o £500.00 Ras y Tri Chopa £317.15 Siop Llithfaen £25.00 **Bydd y cyfanswm o £842.15 yn cael ei gadw yng nghyfrif Cadw'r Cyngor ar les y diffiblwr yn unig**

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12fed o Fawrth am 7:00 y.h.

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad: